

# NID YW'R GWAITH YN OFER



Dydd Llun - 2

Rwy'n aml yn meddwl fod wythnos o Rymgyrch yn rhyw ficrocosm o'r bywyd Cristnogol. Rydym yn cychwyn yr wythnos yn llawn egni ac yn ddisgwylgar o'r hyn y gall Duw ei wneud. Rydym yn gweld yr angen, ac er ein bod yn wan, rydym yn ymwybodol o'r potensial o'r hyn y gall Duw ei wneud. Ond mae pethau yn aml yn newid wrth i'r wythnos fynd rhagddi... rydym yn llafurio, yn rhannu'r efengyl, yn ceisio bendith yr Arglwydd, eto yn gweld ychydig o ffrwyth. Mae'n hawdd cwestiynu beth yr ydym yn ei wneud ac oes pwynt i'r cyfan.

Ydych chi'n teimlo fel hyn weithiau?

Ar adegau fel hyn rhaid i ni ddal at yr addewid mawr a roddodd Paul i'r Corinthiaid - nid yw ein llafur yn ofer. Gallwn fod yn sicr fod Duw ar waith a'i fod yn ein defnyddio er Ei ogoniant.

Medrwn edrych ar ein calonau ein hunain a meddwl nad ydym yn tyfu fel yr hoffem. Gallwn edrych ar ein heglwys a chwestiynu pam nad ydym yn gweld mwy o dyfiant neu mwy yn dod i greu. Mae'n iawn ein bod yn gwneud hyn ac yn chwilio ein calonau i weld a oes rheswm nad yw Duw yn bendithio - ond rhaid i ni beidio byth ac anobeithio. Nid yw ein gwaith dros yr Arglwydd yn ofer. Byddwn yn edrych yn ol rhywbryd ar ein dyddiau ni gan ryfeddu fel yr oedd yr Arglwydd yn defnyddio tapestri ein trafferthion, methianau ac anogaethau er Ei ogoniant!

*"Felly, fy nghyfeillion annwyl, byddwch yn gadarn a diysgog, yn helaeth bob amser yng ngwaith yr Arglwydd, gan eich bod yn gwybod nad yw eich llafur yn yr Arglwydd yn ofer.*

1 Corinthiaid 15:58

## PWYNTIAU GWEDDI

### DIOLCHGARWCH A MAWL

**Diolch i Dduw am ei addewid rhyfeddol. Diolchwch fod y gwaith yn dibynnu arno Ef, nid amom ni.**

### YMATEB AC YSTYRIED

**Sut ydych chi'n ymagweddu tuag at yr hyn y mae Duw yn ei wneud yn eich eglwys? Sut gall yr addewid hwn eich helpu?**

### GOFYN

**Gofynnwch i Dduw annog ei bobl yng Nghymru - mae nifer o eglwysi'r efengyl yn fach gyda Christnogion ffyddlon ynddynt. Gweddïwch y bydd Duw yn rhoi doethineb iddynt.**

## ENGHREIFFTIAU O GYMRU

**Mae nifer o eglwysi bach sydd wedi bod yn ffyddlon ers blynyddoedd wedi cael eu hannog yn ddiweddar - gydag Eglwysbach a Roch yn enghreifftiau.**

**Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn gweld nifer o weinidogion yn ymddeol. Maent wedi gweinigogaethu yn ffyddlon mewn amgylchiadau anodd yn aml. Gweddïwch dros y rhai fydd yn cymryd eu lle.**